# PWYLLGOR CYNLLUNIO

Dydd Iau, 29 Mehefin 2017

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd A. Lenny (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
S.M. Allen, J.M. Charles, I.W. Davies, J.A. Davies, P.M. Edwards, W.T. Evans, S.J.G. Gilasbey, J.K. Howell, J.D. James, A.C.J. Jones, D. Jones, H.I. Jones, M.J.A. Lewis, K. Lloyd, K. Madge, B.A.L. Roberts and G.B. Thomas

**Also Present:**
Y Cynghorydd D. Cundy, a fu’n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio S/33342
Y Cynghorwyr S.L. Davies a G. Thomas ynghylch ceisiadau cynllunio S/33342
Y Cynghorydd R. James, a fu'n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio S/35542;
Y Cynghorydd A. James, a fu’n annerch y Pwyllgor ynghylch ceisiadau cynllunio E/35128

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
K. Byrne, Cyfreithiwr Cynorthwyol
J. Edwards, Y Pennaeth Cynllunio Integredig
K. James, Peiriannydd Cynorthwyol (Cydgysylltu Cynllunio)
G. Noakes, Uwch Swyddog Rheoli Datblygu (y Dwyrain)
P. Roberts, Swyddog Rheoli Datblygu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Siambr, Neuadd y Sir, Caerfyrddin - 10.00 am - 12.30 pm**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorwyr L. Bowen a J.E. Williams.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| A. Lenny | 3.3 – Cais Cynllunio E/35395 – Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer sied fragdy sydd eisoes wedi'i chodi ar dir ym Mragdy Evan Evans, 1 Stryd Rhosmaen, Llandeilo, SA19 6LU | Mae aelod agos o'r teulu yn gweithio yn y sector - ond nid ar gyfer yr apelydd |
| H.I. Jones | 4.1 – Cais Cynllunio S/33342 – Adeiladu 240 o breswylfeydd ynghyd â mynediadau cysylltiedig i gerbydau, llecynnau parcio ceir a thirlunio (materion a gadwyd yn ôl ynghylch cais amlinellol S/15702) ar dir yn Fferm Genwen, Bynea, Llanelli, SA14 9PH | Heb ddatguddio |

3. RHANBARTH Y DWYRAIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO

3.1 **PENDERFYNWYD** caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| **E/34887** | **Gorsaf Drydan Dŵr o'r Afon sy'n cynnwys mewnlif, pibell wedi'i chladdu, adeilad y pwerdy ac all-lif ym Mhrosiect Trydan Dŵr Ystradffin, Rhandir-mwyn, Llanymddyfri.** |
| **E/35019** | **Safle Gwersylla a Pharcio, Bloc Cyfleusterau a Mynediad yn Nhirbach, Brechfa, Caerfyrddin, SA32 7RA** |

**3.2 PENDERFYNWYD gwrthod y cais cynllunio canlynol am y rhesymau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-**

| | |
|---|---|
| **E/35128** | **Addasu a defnyddio ysgubor bresennol ar gyfer cymysgedd o Lety i Dwristiaid a Defnydd Amaethyddol yn Stable Barn, 5 Fferm Cefngornoeth, Llangadog, SA19 9AN**<br><br>(NODER: ni chydsyniwyd i'r cais bod y Pwyllgor yn cael golwg ar y safle mewn perthynas â'r cais cynllunio uchod)<br><br>Daeth sylw i law a gefnogai'r datblygiad uchod, ac a ailbwysleisiai'r pwyntiau y manylwyd arnynt yn adroddiad ysgrifenedig y Pennaeth Cynllunio, gan gynnwys y pwyntiau canlynol:-<br>• Roedd yr ysgubor yn adeilad amaethyddol diangen a oedd wedi'i lleoli o fewn hen safle fferm<br>• Ystyriai'r datblygwr fod gan y cynnig botensial i wella amwynder gweledol yr ardal a gwella'r safle presennol drwy adnewyddu'r uned ddiangen olaf ar y safle, gan gydweddu â'r 5 addasiad/preswylfa presennol.<br>• Yn ogystal ag elfen breswyl y datblygiad arfaethedig, bwriad y datblygwr oedd darparu cynhyrchion amaethyddol o safon, cawsiau, mêl a chig oen, o fewn yr elfen arallgyfeirio amaethyddol sy'n hyrwyddo egwyddorion y Ddeddf Iechyd a Llesiant a'r defnydd o feddyginiaethau amgen. |
| | • Gan nad oedd y Pennaeth Cynllunio wedi gwrthwynebu egwyddor yr elfen o arallgyfeirio amaethyddol arfaethedig yn y datblygiad, gofynnwyd a fyddai'r Pwyllgor yn ystyried gohirio er mwyn rhoi cyfle i'r ymgeisydd drafod y cynigion ymhellach â'r Pennaeth Cynllunio os yw'r Pwyllgor yn bwriadu cymeradwyo'r argymhelliad i wrthod y cais.<br><br>Ymatebodd yr Uwch-swyddog Rheoli Datblygu (Rhanbarth y Dwyrain) i'r materion a godwyd |

**3.3 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliadau safle:-**

| | |
|---|---|
| **E/35434** | **Estyniad i'r ail lawr uwchben estyniad llawr gwaelod presennol yng nghefn yr adeilad yn 3 Caeffynnon, Llandybïe, Rhydaman SA18 2TH**<br><br>**RHESWM:** asesu a allai'r cynnig gael effaith niweidiol ar amwynder yr eiddo cyfagos o ran colli golau. |
| **E/35395** | **Caniatâd ôl-weithredol ar gyfer sied fragdy sydd eisoes wedi'i chodi ar dir ym Mragdy Evan Evans, 1 Stryd Rhosmaen, Llandeilo, SA19 6LU**<br><br>**RHESWM:** rhoi cyfle i'r pwyllgor weld y datblygiad o safbwynt y sawl sy'n gwrthwynebu a gweld yr adeilad o fewn cyd-destun y bragdy yn ei gyfanrwydd.<br><br>(NODER: gan ei fod wedi datgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, nid oedd y Cynghorydd A. Lenny yn cadeirio'r drafodaeth arno ac nid oedd yn bresennol yn y cyfarfod tra oedd y cais dan sylw. Cadeiriodd y Cynghorydd H.I. Jones, yr Is-gadeirydd, y cyfarfod yn absenoldeb y Cadeirydd. |

## 4. RHANBARTH Y DE - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.

**4.1 PENDERFYNWYD gohirio ystyried y ceisiadau cynllunio canlynol er mwyn i'r Pwyllgor gynnal ymweliadau safle:-**

| | |
|---|---|
| **S/33342** | **Adeiladu 240 o breswylfeydd ynghyd â mynediadau cysylltiedig i gerbydau a cherddwyr, llecynnau parcio ceir a thirlunio (materion a gadwyd yn ôl ynghylch cais amlinellol S/15702) ar dir yn Fferm Genwen, Bynea, Llanelli, SA14 9PH**<br><br>Roedd sylw wedi dod i law yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle mewn perthynas â'r cais i:- |
| | • ddeall effaith bosibl y datblygiad ar isadeiledd yr ardal a diogelwch y trigolion.<br>• gweld y lleoliad arfaethedig ar gyfer y tanciau/pympiau carthffosiaeth a'r posibilrwydd y byddai tai cyfagos yn edrych drostynt.<br>• rhoi cyfle i'r pwyllgor cyfan ymweld â'r safle o ystyried mai dim ond 6 o'i aelodau presennol oedd yn aelodau'r pwyllgor cynllunio blaenorol a aeth i ymweld â'r safle mewn perthynas â'r cais cynllunio amlinellol gwreiddiol S/15702<br><br>**RHESWM:** rhoi cyfle i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil y sylwadau uchod.<br><br>(NODER: Gan iddo ddatgan buddiant yn y cais hwn yn gynharach, nid oedd y Cynghorydd H. I. Jones yn bresennol tra oedd y cais yn cael ei ystyried). |

| | |
|---|---|
| S/35029 | **Newid defnydd tŷ allan i fod yn 12 cwt ci yn Durclawdd Fach, Llannon, Llanelli SA14 8JW**<br><br>**RHESWM:** rhoi'r cyfle i'r pwyllgor asesu'r posibilrwydd y bydd llygredd sŵn yn effeithio ar eiddo cyfagos. |
| S/35542 | **Darparu lle chwarae cyhoeddus gwastad gan gynnwys ffrâm ddringo i'r gorllewin o'r Meini Gorsedd ym Mharc Howard yn y Lle Chwarae, Parc Howard, Llanelli, SA15 3LQ**<br><br>Roedd sylw wedi dod i law yn gofyn i'r Pwyllgor ymweld â'r safle er mwyn:<br>• asesu'r effaith bosibl y gallai'r ffrâm ddringo, 19 troedfedd o uchder, ei chael ar y Meini Gorsedd cyfagos, yn ôl pryderon a fynegwyd gan CADW.<br>• edrych ar y meysydd chwarae presennol yn yr ardal gyfagos<br><br>**RHESWM:** rhoi cyfle i'r Pwyllgor gael golwg ar y safle yn sgil y sylwadau uchod. |

## 5. RHANBARTH Y GORLLEWIN - PENDERFYNU AR GEISIADAU CYNLLUNIO.

**5.1 PENDERFYNWYD** caniatáu'r cais cynllunio canlynol yn amodol ar yr amodau y manylwyd arnynt yn Adroddiad/Atodiad y Pennaeth Cynllunio a/neu y rhoddwyd gwybod amdanynt yn y cyfarfod:-

| | |
|---|---|
| W/34603 | **Lleoli 4 preswylfa ar wahân ar dir ger Ynysdawel, Heol Cwm-mawr, Drefach, Llanelli, SA14 7AE** |

## 6. GORFODI AMODAU CYNLLUNIO A'U MONITRO DANGOSYDDION PERFFORMIAD.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL dderbyn yr adroddiad ynghylch y Dangosyddion Perfformiad o ran Monitro a Gorfodi Rheolau Cynllunio.**

## 7. LLOFNODI YN COFNOD CYWIR COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 1AF MEHEFIN, 2017.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion y cyfarfod oedd wedi'i gynnal ar 1 Mehefin 2017 gan eu bod yn gywir.**

## 8. GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitem**

**ganlynol yn cael ei hystyried, gan fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym Mharagraffau 12, 13, 17 ac 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

## 9. GORFODI RHEOLAU CYNLLUNIO A MONITRO ACHOSION GORFODI.

Ar ôl cynnal prawf budd y cyhoedd **PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod rhif 8 uchod, fod y mater hwn yn cael ei ystyried yn breifat, gan beidio â gadael i'r cyhoedd fod yn bresennol yn y cyfarfod, gan y byddid yn datgelu gwybodaeth eithriedig ynghylch y canlynol;**

- **Paragraff 12 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n ymwneud ag unigolyn penodol;**
- **Paragraff 13 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n debygol o ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw;**
- **Paragraff 17 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf – Gwybodaeth sy'n datgelu bod yr awdurdod yn bwriadu:**
- **rhoi, o dan unrhyw ddeddfiad, rybudd a fyddai'n gosod gofynion ar unigolyn; neu**
- **gwneud gorchymyn neu gyfarwyddyd o dan unrhyw ddeddfiad.**
- **Paragraff 18 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf - Gwybodaeth am unrhyw gamau a gymerwyd neu sydd i'w cymryd mewn perthynas ag atal trosedd, ymchwilio i drosedd neu erlyn trosedd.**

Roedd y prawf budd y cyhoedd o ran y mater hwn yn ymwneud â'r ffaith fod yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth am achosion lle ystyrid cymryd camau cyfreithiol yn erbyn trydydd partïon, a hynny weithiau mewn sefyllfaoedd lle nad oedd y trydydd parti yn ymwybodol o'r camau yr ystyrid eu cymryd. Roedd yr adroddiad yn cynnwys gwybodaeth bersonol am y trydydd parti, ac weithiau'n enwi achwynydd. Roedd budd i'r cyhoedd o ran cael sicrwydd bod arferion cyffredinol y Cyngor mewn perthynas â chymryd camau gorfodi yn gyfreithlon, yn deg ac yn unol â'i bolisïau a'i weithdrefnau. Fodd bynnag, petai manylion ynghylch achosion unigol yn cael eu datgelu i'r cyhoedd ar hyn o bryd, byddai hynny'n debygol o beryglu'r ymchwiliad a hefyd gallai hynny fynd yn groes i ddyletswydd cyfrinachedd yr Awdurdod mewn perthynas ag ymdrin â chwyn. Felly ar ôl pwyso a mesur, barnwyd bod y budd i'r cyhoedd o ran cynnal yr eithriad yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL nodi adroddiad y Pennaeth Cynllunio am y camau gorfodi yr oedd wedi eu cymryd yn unol â'r pwerau oedd wedi eu dirprwyo iddi.**

CADEIRYDD

DYDDIAD